"'Rwy'n dweud wrthych, dyma'r un a aeth adref wedi ei gyfiawnhau, nid y llall; oherwydd darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun."
(Luc 18:14)

Dyma eiriau pwysig iawn gan Iesu. Mae'n dweud wrthym pa fath o berson gaiff ei gyfiawnhau a'i dderbyn gan Dduw. Mae'n dangos i ni nad yw hunangyfiawnder yn gwneud unrhyw argraff ar yr Hollalluog.

Gwrthrych y neges

Mae Luc yn dweud wrthym bod Iesu wedi adrodd y ddameg hon 'wrth' yr hunangyfiawn oedd yn edrych i lawr ar eraill. Felly, mae'n siarad yn benodol â'r Phariseaid ac â'r ysgrifenyddion, sef crefyddwyr mwyaf pybyr ei ddydd.

Y gweddïwyr

Mae Iesu'n disgrifio'r Pharisead yn gyntaf. Er ei fod yn 'gweddïo' yn ystyr ffurfiol y gair, dyw e ddim yn estyn allan at Dduw o'i galon ac yn sicr dyw ei eiriau ddim yn cyrraedd y nef. Yn wahanol i'r casglwr trethi, mae'n sefyll yn syth ac mae'n benuchel.

Wrth ddweud diolch i Dduw, does dim ymwybyddiaeth o ddyled fawr i'r Hollgyfoethog Dduw. Does dim cydnabod gras Duw yn ei gadw rhag y pechodau y mae eraill wedi syrthio iddynt. A dweud y gwir, does dim ymwybyddiaeth o fai na phechod o gwbl, a does dim diolch i Dduw o gwbl. Os rhywbeth, mae'n diolch iddo fe'i hunan am fod yn berson mor dda. Mae'n ei gymharu ei hun ag eraill, ond nid â phobl ddefosiynol fel Samuel neu Simeon, ond â rhai oedd ag enw drwg gan ddynion.

Yn negyddol, mae'n tybio nad yw'n rheibus, nad yw'n berson creulon sy'n cymryd mantais ar eraill trwy nerth (fel y casglwyr trethi, wrth gwrs). Ni allai weld ei fod yn dwyn gogoniant Duw oddi wrtho wrth iddo ei ddyrchafu ei hun yn gyfiawn ger ei fron. Ni allai weld ei fod yn gondemniol o eraill ac yn dwyn trugaredd a gras oddi wrthynt.

Nid yw'n anghyfiawn, nid yw yn ei weld ei hun yn ddyledwr i neb nac yn twyllo neb, er ei fod yn ddyledwr beunyddiol i Dduw ac yn ei dwyllo'i hunan yn llwyr. Nid yw'n odinebus, ond yn ei weld ei hun yn bictiwr o rinwedd. Onid yw'n euog o odineb ysbrydol, gan na allwn byth ddweud ei fod yn caru'r Arglwydd ei Dduw â'i holl galon? Dyma'r godineb gwaethaf yng ngolwg yr Arglwydd: **"Gwelais dy anlladrwydd, dy odineb…Gwae di, Jerwsalem!"** (Jer.13.27).

Nid yw'n gasglwr trethi chwaith. Roedd hwnnw'n ymgorfforiad o nifer o'r pechodau nad oedd y Phariseaid yn euog ohonynt. Mae'n gysur iddo wybod ei fod yn well nag eraill, fel gyda phob person sy'n ei addoli ei hunan.

Yn gadarnhaol, roedd ei fywyd crefyddol yn ddisgybledig a da. Er mai pwrpas ympryd oedd ymostwng i geisio Duw mewn angen, roedd hwn yn ei weld fel seren aur arall ar ei siart cyfiawnder. Er bod offrwm i'w wneud mewn diolchgarwch gostyngedig, roedd hwn yn ei weld fel cyfle i ddangos ei werth fel un o sêr y byd crefyddol cyfoes.

Mae'r disgrifiad o'r casglwr trethi'n cyfleu person hollol wahanol. Mae ei osgo'n hollol wahanol. Mae'n teimlo'n annheilwng o fod ym mhresenoldeb Duw o gwbl. Dyna pam mae'n sefyll ymhell i ffwrdd. Nid yw'n teimlo ei fod yn agos at Dduw, nid yw'n gweld bod hawl ganddo i ddynesu at orsedd y nef. Mae'n benisel. Mae hynny hyd heddiw yn arwydd o swildod a chywilydd. Ni all ddal ei ben yn uchel gerbron y Duw sanctaidd a chyfiawn sy'n gweld y galon ddynol ac yn mesur bwriadau a chymhellion dyfnaf dyn.

Mae curo'r fron yn arwydd o alar. Mae'n galaru am ei ddrygioni a'i fethiannau, fel petai'n dymuno troi cloc ei fywyd yn ôl. Mae'n ymgorfforiad o'r person mae Iesu'n ei ddisgrifio yn y tri 'Gwynfyd' cyntaf yn y Bregeth ar y Mynydd. Mae'n dlawd yn yr ysbryd, mae'n galaru, ac mae'n addfwyn gerbron Duw; felly, mae'n siŵr o gael ei fendithio.

Wrth weddïo, nid yw'n cyfeirio at ddaioni na chyfiawnder yn ei hunan o gwbl. Does ganddo ***ddim*** rhinwedd i bledio na bargeinio gerbron Duw. Dyw e ddim yn gweld gwerth nodi unrhyw beth fel rheswm i Dduw ei fendithio. Ei unig obaith yw Duw ei hun. Trugaredd Duw yw ei ddadl orau. Mae'n gorfod edrych y tu allan iddo fe'i hunan, ac mae'n edrych i gyfeiriad y nef.

Canlyniad

Dywed Iesu'n glir mai'r ail gafodd ei fendithio a'i dderbyn gan Dduw. Os am ein hystyried yn gyfiawn gan Dduw, rhaid gweld nad yw'r cyfiawnder digonol gennym ni, ond bod Duw o'i drugaredd wedi ei ddarparu ar ein cyfer yn Iesu Grist.